EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

**COFNODION DEUGEINFED CYFARFOD**
**CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG**

**DYDDIAD: 10 Gorffennaf 2025**

**LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA**

**Yn bresennol:**
**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Eithne Hughes (*Cadeirydd*) | Theresa Evans-Rickards |
| David Williams | Kelly Edwards |
| Gwawr Taylor | Jane Jenkins |

Ar-lein: Sue Walker, Nicola Stubbins

**Ymddiheuriadau:**
Kathryn Robson, Geraint Williams, David Edwards, Karl Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Hayden Llewellyn | Prif Weithredwr |
| Lisa Winstone | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Bethan Stacey | Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi |
| David Browne | Cyfarwyddwr Rheoleiddio |
| Amy Pope | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Louise Deeley | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol *(cofnodion)* |
| Angela Guarno | Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr (*arsylwi*) |
| Richard Skyrme | HEO Datblygu a Marchnata'r PDP (*arsylwi)* |
| Jo Beach | Swyddog Achredu ac Ansawdd (*arsylwi*) |

**1. Croeso a materion rhagarweiniol**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau a swyddogion i ddeugeinfed cyfarfod Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Croesawodd hi'r cyfieithydd ar y pryd ac arsylwyr o CGA. Cafwyd ymddiheuriadau gan Kathryn Robson, Geraint Williams, David Edwards a Karl Jones.

1.2 Cafodd aelodau eu hatgoffa y byddai sesiwn gynllunio a chyfarfod nesaf y Cyngor yn digwydd am 10:00am, 10 Tachwedd 2025 yn Swyddfa CGA. Nododd y Cadeirydd nad oedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi gallu dod i'r cyfarfod; cafodd hi ei gwahodd i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.

**2. Datganiadau Buddiannau**

2.1 Datganodd Kelly Edwards Fuddiant yn gysylltiedig â'i rôl yn ColegauCymru a chymwysterau gofynnol Athrawon AB.

**3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Cyngor ar yr ymdrech recriwtio ddiweddar i benodi Prif Weithredwr newydd. Penodwyd Goodson Thomas, sef asiantaeth chwilio uwch swyddogion, a darparwyd rhestr fer. Nid oedd unrhyw ymgeiswyr mewnol wedi gwneud cais am y rôl. Yn dilyn cyfweliadau, roedd y panel (gan gynnwys un cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ac un annibynnol), wedi cytuno i beidio â phenodi. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Lisa Winstone, sydd hefyd yn ddirprwy brif weithredwr, wedi cytuno i fod yn Brif Weithredwr Interim am gyfnod o chwe mis o 14 Gorffennaf 2025 ymlaen. Byddai ymdrech recriwtio newydd yn dechrau yn yr hydref.

3.2 Holodd un aelod am yr adborth a gafwyd gan Goodson Thomas. Cadarnhaodd y Cadeirydd eu bod o'r farn bod safon yr ymgeiswyr yn dda a'u bod wedi trosglwyddo adborth oddi wrth y panel yn dilyn y broses gyfweld.

**4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 20 Mawrth 2025**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft gyfarfod y Cyngor ar 20 Mawrth 2025. Gofynnodd i aelodau gymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o drafodaethau.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi a chadarnhaodd y Cyngor y cofnodion.

**5. Cael gwybod am unrhyw faterion y mae'r aelodau'n dymuno eu codi yn gysylltiedig â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'**

5.1 Ni roddwyd gwybod am unrhyw faterion.

**6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 20 Mawrth 2025**

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 20 Mai 2025**

7.1 Cyflwynodd Nicola Stubbins (*Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio*) y cofnodion a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

7.2 Nodwyd bod y Pwyllgor wedi cael gwybod am yr oedi cyn gweithredu'r gronfa ddata cofrestru.

7.3 Roedd y data ar gyfer 2025-26 yn gyfyngedig, felly roedd eitemau'r agenda a drafodwyd yn gysylltiedig â data'r llynedd. Bu pryder am ddehongli'r deddfwriaeth yn gysylltiedig â'r cyfnod a fyddai'n cael ei ganiatáu i athrawon AB gwblhau cymhwyster gofynnol penodedig yn achos y rhai heb y cymhwyster gofynnol. Roedd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio wedi

cael gwybod bod y tîm yn aros am gyngor cyfreithiol ar y mater. Rhoddwyd gwybod i aelodau'r Cyngor y cafwyd cyngor cyfreithiol anffurfiol. Byddai angen i swyddogion ystyried p'un a fyddai angen ceisio cyngor cyfreithiol ffurfiol pellach ai peidio.

7.4 Roedd y Pwyllgor wedi croesawu'r egwyddor newydd ar arweinyddiaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adolygiad o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol.

7.5 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**8. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 16/25**

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw mewn man arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

8.2 Gan gyfeirio at baragraff 5, nododd y Prif Weithredwr her penodi aelodau gyda dim ond blwyddyn a hanner yn weddill o'r tymor presennol, a fyddai'n cael ei chodi gyda Llywodraeth Cymru.

8.3 Hysbyswyd aelodau fod Datganiad Ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn rhoi diweddariad ar Ddysgu Proffesiynol a Gwella Ysgolion.

8.4 Rhoddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr awr o dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 5 Mehefin 2025, gan gael sylw helaeth yn y wasg wedi hynny. Croesawyd y dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet a chynhaliwyd cyfarfodydd dilynol gyda dau arweinydd o'r gwrthbleidiau. Byddai'r cyflwyniad ysgrifenedig a ddarparwyd eisoes yn cael ei adolygu yn sgil cais gan y Pwyllgor am dystiolaeth ychwanegol.

8.5 O ran paragraffau 10-12, roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud datganiad ffurfiol am gorff gwaith ieuenctid newydd sy'n cael ei ffurfio.

8.6 Bu presenoldeb da yn y Dosbarth Meistr ar sut mae ymennydd plant yn gweithio, a gyflwynwyd gan y siaradwr gwadd, Dean Burnett, ar 11 Mai 2025.

8.7 Nododd y Cadeirydd fod angen cymryd camau ynghylch swyddi gwag y Cyngor i'w dal am 4 blynedd o leiaf. Nodwyd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn awyddus i gael cynrychiolaeth ar gyfer cynorthwywyr addysgu.

8.8 Holodd un aelod p'un a oedd matrics sgiliau ffurfiol i amlygu bylchau mewn sgiliau ymhlith aelodaeth y Cyngor. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod proses gyfweld gadarn ar waith i gwmpasu cynifer o'r categorïau cofrestru â phosibl. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr eu bod yn benodiadau gan Lywodraeth Cymru a bod set o sgiliau gwybodaeth a gofynion wedi'u datblygu ar y cyd.

8.9 Awgrymodd un aelod estyn allan at Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch a oedd yn aelodau o gyrff llywodraethu a gofynnwyd i aelodau gynorthwyo ag enwebiadau. Awgrymodd aelod arall y gellid archwilio, gyda Llywodraeth Cymru, cael rhaglen hyfforddiant ar gyfer blwyddyn gyntaf aelodaeth o'r Cyngor, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y tymor.

8.10 Nid oedd gan aelodau sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**9. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2024-2025 CGA 17/25**

9.1 Cyflwynodd Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Roedd y rhain wedi'u cyflwyno a'u hargymell i'r Cyngor eu cymeradwyo yn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 3 Gorffennaf 2025.

9.2 Roedd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r ddogfennaeth lawn a darparwyd crynodeb i aelodau'r Cyngor o'r pwyntiau allweddol i'w nodi. Canlyniad yr archwiliad oedd 'barn archwilio ddiamod'. Roedd tri chywiriad wedi'u hamlygu a'u derbyn, a nodwyd ym mharagraff 5. Nodwyd un argymhelliad ar gyfer y flwyddyn nesaf ynghylch cryfhau'r testun sy'n ymwneud â datgeliadau partïon cysylltiedig gan aelodau'r cyngor. Y canlyniad terfynol oedd diffyg o £1.481m, gyda'r gronfa gyffredinol wrth gefn bellach yn £2.993m.

9.3 Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch swyddogion a thimau CGA am ganlyniad rhagorol.

9.4 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu y berthynas waith dda, y proffesiynoldeb a'r her adeiladol rhwng CGA ac Archwilio Cymru.

9.5 Nid oedd gan aelodau sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25.

**10. Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydraddoldeb 2024-25 ac Adroddiad Blynyddol Drafft Monitro Safonau'r Gymraeg 2024-25 CGA 18/25**

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papurau i aelodau, yn darparu adroddiadau blynyddol drafft ar Gydraddoldeb, a Safonau'r Gymraeg. Nodwyd bod yr adroddiadau (Atodiad A a B) wedi cael eu cyflwyno a'u hargymell i'r Cyngor eu cymeradwyo yn dilyn y Pwyllgor Gweithredol ar 20 Mai 2025.

10.2 Nid oedd gan aelodau ymholiadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r adroddiadau.

**11. Adolygiad o'r Gofrestr Risg CGA 19/25**

11.1 Cyflwynodd Lisa Winstone grynodeb i aelodau o'r Gofrestr Risg bresennol a'r archwaeth risg cyffredinol am adolygiad blynyddol.

11.2 Yn sgil y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ar lefelau ffioedd yn y dyfodol a'r cyfarfod uwchgyfeirio ynghylch y gronfa ddata ar 17 Gorffennaf 2025, roedd potensial am newidiadau i rai sgorau yn yr adolygiad nesaf. Cytunodd aelodau y dylai'r archwaeth risg cyffredinol barhau'n amharod i dderbyn risg.

11.3 Holodd un aelod p'un a oedd yr ymgynghoriad ar ffioedd gyda Llywodraeth Cymru wedi dechrau a chadarnhaodd Lisa Winstone nad oedd wedi dechrau.

11.4 Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi gofyn bod rheoliadau neu gamau gweithredu'n ymwneud â cholli personél allweddol yn annisgwyl yn cael eu hadolygu i adlewyrchu'r sefyllfa staffio bresennol yn sgil ymddeoliad y Prif Weithredwr.

11.5 Nid oedd gan aelodau ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r adolygiad a'r parodrwydd presennol i dderbyn risg.

**12. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 20/25**

12.1 Cyflwynodd David Browne (*Cyfarwyddwr Rheoleiddio*) yr adroddiad cynnydd hwn a roddodd ddiweddariad i aelodau ar waith CGA yn gysylltiedig â gwaith Statws Athro Cymwysedig (SAC), Cofrestru a Sefydlu.

12.2 Roedd casglu adnewyddiadau ffioedd cofrestru ar gyfer 2025-26 wedi dod i ben. Tynnwyd enwau cyfanswm o 15,481 o ymarferwyr o'r Gofrestru am beidio â thalu'r ffi.

12.3 Roedd y broses diffyg cydymffurfio wedi amlygu 432 o ymarferwyr yr oedd cyflogwyr wedi nodi eu bod yn gweithio, ond nad oeddent yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mae'r ffigur hwnnw wedi gostwng i 112 erbyn hyn.

12.4 O ran cyflwyno cymwysterau gofynnol ar gyfer athrawon AB, ym mis Mai 2024, cafodd aelodau wybod bod CGA wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bu rhai newidiadau ymhlith staff Llywodraeth Cymru ers cyflwyno cymwysterau gofynnol, gan wneud y cyfnod gweithredu'n fwy cymhleth. Pan ddaeth i'r amlwg fod nifer yr athrawon AB a oedd yn meddu ar gymhwyster gofynnol yn is o lawer na'r disgwyl, gweithiodd swyddogion CGA yn agos gyda cholegau AB i sicrhau bod y data ar gymwysterau yn gywir. Ar ôl i ymdrechion casglu data gyda cholegau AB ddod i ben, roedd CGA wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ychwanegol gyda Cholegau Cymru a Llywodraeth Cymru i geisio eglurhad pellach ynghylch gweithredu cymwysterau gofynnol i athrawon AB. Roedd CGA wedi bwriadu cyfathrebu â'r holl athrawon AB a oedd yn gofrestreion ac roedd y newidiadau deddfwriaethol wedi effeithio arnynt pan fyddai eu cofrestriad yn cael ei gadarnhau ym mis Mai 2025. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod CGA yn oedi cyn anfon gohebiaeth tra'r oedd yn ceisio cyngor cyfreithiol ar ddiweddaru'r rhestr cymwysterau gofynnol a'r amser a ganiateir i ennill un o'r cymwysterau. Cynghorodd David Browne y byddai angen hefyd i CGA geisio barn gyfreithiol ffurfiol ar y mater. Sut bynnag, roedd CGA eisiau gweithio'n bragmatig gyda'r sector a Llywodraeth Cymru i weithredu'r ddeddfwriaeth ar gymwysterau gofynnol. Roedd trafodaethau'n parhau rhwng Colegau Cymru, CGA a Llywodraeth Cymru.

12.5 Holodd un aelod am y cyfathrebu â cholegau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod CGA yn parhau i weithio'n agos gyda Cholegau Cymru ar y mater hwn.

12.6 Nid oedd gan aelodau ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**13. Uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA CGA 21/25**

13.1 Rhoddodd David Browne ddiweddariad ar gynnydd hyd yma ar y prosiect a gymeradwywyd gan y Cyngor i uwchraddio system cronfa ddata CGA. Rhoddodd wybod i aelodau y bu oedi oherwydd problem fyd-eang gyda meddalwedd Miller, a oedd wedi effeithio ar brofi. Roedd cyfarfod uwchgyfeirio wedi'i drefnu ar gyfer 3 Gorffennaf 2025, ond ers hynny, roedd ClearCourse wedi gofyn am gyfarfod wyneb yn wyneb ar 17 Gorffennaf 2025. Roedd y

gofrestr risg wedi'i diweddaru'n flaenorol i adlewyrchu'r oedi a byddai'n parhau i gael ei hadolygu gan yr uwch dîm rheoli (UDRh).

13.2 Nid oedd gan aelodau ymholiadau ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**14. Adroddiad Cynnydd Priodoldeb i Ymarfer** **CGA 22/25**

14.1 Cyflwynodd David Browne yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig.

14.2 Cyfeiriwyd aelodau at baragraff 11 a rhoddwyd gwybod iddynt fod saith pwyllgor priodoldeb bellach wedi'u cynnal a bu un achos o wrthod.

14.3 Nid oedd gan aelodau ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**15. Adolygiad o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** **CGA 23/25**

15.1 Cyflwynodd David Browne y papur hwn a amlinellodd gamau gweithredu i gwblhau'r adolygiad 3 blynyddol o God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cofrestreion; cafodd hwn ei gyflwyno a'i argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo yn y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 20 Mai 2025.

15.2 Tynnwyd sylw at y newidiadau a amlygwyd yn y Cod diwygiedig, yn dechrau ar dudalen 25. Ychwanegwyd set newydd o egwyddorion ar arweinyddiaeth. Ym mharagraff 1.4, addaswyd yr iaith i gryfhau cyfrifoldebau diogelu. Nododd fod strwythur y gofrestr yn newid, ac felly roedd angen diwygio'r egwyddorion y dylai pobl fod yn glynu atynt. Roedd pwynt newydd wedi'i ychwanegu ynghylch alcohol a sylweddau eraill yn sgil adolygu codau rheoleiddwyr eraill a chynnydd mewn achosion Priodoldeb i Ymarfer yn ymwneud ag alcohol.

15.3 Nid oedd gan aelodau sylwadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r Cod i'w gyhoeddi.

**16. Adroddiad Blynyddol Drafft Priodoldeb i Ymarfer** **CGA 24/25**

16.1 Gofynnodd David Browne i aelodau ystyried yr Adroddiad Blynyddol Drafft Priodoldeb i Ymarfer, a oedd wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo yn y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 20 Mai 2025.

16.2 Nid oedd gan aelodau sylwadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r adroddiad i'w gyhoeddi.

**17. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)** **CGA 25/25**

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* y papur hwn a roddodd ddiweddariad i aelodau ar gynnydd ynghylch rôl statudol CGA i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

17.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod rhaglen 'Llwybr TAR at SAC i Weithwyr mewn Ysgolion' bellach ar waith.

17.3 Cyfeiriwyd aelodau at baragraffau 6-8 ynghylch llythyr lles/diogelu a gyhoeddwyd gan Estyn i ddwy bartneriaeth AGA rhwng arolygiadau. Roedd manylion y llythyr yn awgrymu diffyg cydymffurfio â'r meini prawf achredu. Amlinellwyd camau gweithredu olynol CGA a'i ymateb i'r dystiolaeth hon i gynorthwyo ag adfer cydymffurfedd â'r meini prawf.

17.4 Roedd trafodaethau ag Estyn yn parhau yn gysylltiedig â threfniadau arolygu diwygiedig.

17.5 Roedd Bethan Stacey wedi cymryd rhan yng ngrŵp llywio Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwerthuso Polisi AGA. Yn sgil proses dendro ym mis Ebrill, fe wnaeth Llywodraeth Cymru benodi Alma Economics i ymgymryd â'r adolygiad.

17.6 Nid oedd gan aelodau gwestiynau na sylwadau.

## 18. Ailddilysu proffesiynol CGA 26/25

18.1 Gwahoddodd Bethan Stacey farn aelodau ar y posibilrwydd o gyflwyno gofyniad ailddilysu i gofrestreion CGA. Roedd fersiwn o'r papur wedi'i ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Gweithredol ar 20 Mai 2025.

18.2 Cytunodd un aelod fod yr egwyddorion yn ddilys ac awgrymodd y byddai sgyrsiau ag undebau llafur yn ddefnyddiol.

18.3 Hysbysodd y Prif Weithredwr aelodau ei fod ef a'r Cadeirydd wedi cyfarfod â Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban i adolygu eu model.

18.4 Yn sgil ymholiad am yr effaith negyddol ar recriwtio a chadw, nododd Bethan Stacey fod gan awdurdodaethau eraill yr un gofynion a'u bod yn cael yr un problemau o ran recriwtio. Gallai ailddilysu fod yn fuddiol trwy gadarnhau'r hawl i ddysgu a datblygiad proffesiynol i'r bobl hynny yn y gweithlu.

18.5 I ymateb i ymholiad am gost, rhoddodd Bethan Stacey wybod i aelodau fod deddfwriaeth CGA yn cael ei hadolygu i bennu'r goblygiadau o ran costau.

18.6 Nododd un aelod fod angen bod yn ystyriol o'r goblygiadau i lwyth gwaith a ph'un a allai gyd-fynd â'r adolygiad o AGA.

18.7 Cytunodd aelod arall â'r cysyniad ond nododd fod angen dealltwriaeth dda o'r gorwel a beth sy'n bosibl i'r grwpiau unigol o gofrestreion, er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol.

18.8 Nid oedd gan aelodau sylwadau eraill. Byddai papur wedi'i ddiweddaru yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Medi.

## 19. Canllaw Arfer Da Drafft CGA: Cefnogi Iechyd Meddwl a Lles Dysgwyr a Phobl Ifanc CGA 27/25

19.1 Cyflwynodd Bethan Stacey ganllaw arfer da drafft newydd CGA. Roedd y canllaw wedi'i gyflwyno a'i argymell i'r Cyngor ei gyhoeddi yn y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 20 Mai 2025.

19.2 Mynegodd un aelod bryder am sut groeso byddai'r canllaw'n ei gael a nododd y byddai angen ychydig o sensitifrwydd yn y cyfathrebu amdano.

19.3 Nododd Bethan Stacey mai diben yr adnodd oedd cynorthwyo unigolion i gydymffurfio â gofynion presennol, ac y gofynnwyd i'r Comisiynydd Plant am adborth a sylwadau.

19.4 Nid oedd gan aelodau sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r canllaw.

**20. Argymhellion CGA ar gyfer maniffestos pleidiau gwleidyddol CGA 28/25**

20.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a rhoddodd wybod i aelodau mai dyma'r tro cyntaf y byddai CGA yn darparu dogfen yn arddull 'maniffesto' er mwyn helpu i lywio trafodaethau a dylanwadu ar blatfformau polisi pleidiau gwleidyddol.

20.2 Nododd un aelod bwysigrwydd amseru a sut y gallai fod yn fuddiol cynnal sgyrsiau cyn cyhoeddi'r ddogfen yn swyddogol.

20.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am y gwaith a wnaed. Cytunwyd y byddai drafft wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddosbarthu i aelodau dros gyfnod yr haf i'w adolygu ymhellach a chael sylwadau arno, ac y byddai drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Medi.

**21. Adolygiad o'r Cygor a Thrafodaeth ynglŷn â Diwrnod Hyfforddi Blynyddol yr Aelodau CGA 29/25**

21.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr aelodau i'r adroddiad hwn, a oedd yn casglu ymatebion o broses adolygu'r Cyngor (Atodiad A). Nodwyd sgorau da a sylwadau cadarnhaol.

21.2 Ni chafwyd sylwadau ac roedd aelodau'n fodlon derbyn y papur.

**22 - 28. Eitem(au) Gwybodaeth**

Derbyniodd yr aelodau bapur(au) "er gwybodaeth" ar y canlynol:

- **Adolygiad chwarterol, 1 Ionawr – 31 Mawrth 2025 (CGA 30/25)**
- **Adolygiad o Flwyddyn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu 2024-25 (CGA 31/25)**
- **Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (CGA 32/25)**
- **Sefydlu Statudol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (CGA 33/25)**
- **Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Addysg (CGA 34/25)**
- **Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) (CGA 35/25)**
- **Ymatebion CGA i Ymgynghoriadau Allanol (CGA 36/25)**

**29. Unrhyw fater arall**

29.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben.

***Gofynnwyd i arsylwyr adael cyn i'r Cyngor symud i'r sesiwn breifat.***